

ESTYN, GAFAEL A RHYNGWEITHIO

Syniad Chwarae

Sut mae'n helpu fy mabi?

Drych



Helpu fy mabi i ddysgu drwy edrych

- Cymryd sylw ac adnabod pethau yn weledol
- Archwilio
- Dysgu i ganolbwyntio a dilyn delweddau

Whoosit Peli Synhwyraidd Blociau



Helpu fy mabi i ddysgu drwy archwilio

- Estyn, gafael, dal a rhyddhau.
- Pasio gwrthrychau rhwng y dwylo
- Teimlo gweadau gwahanol
- Dod â gwrthrychau i'r geg

Llyfrau meddal a gweadog â lluniau



Helpu fy mabi i ddysgu drwy ddefnyddio'r synhwyrau

- Edrych ar luniau
- Dysgu i ddefnyddio'r ddwy law
- Teimlo gweadau gwahanol
- Gwrando ar eiriau gwahanol rydych yn eu dweud

Swigod



Rhoi hwb i ymennydd a llygaid fy mabi

- Edrych ar swigod, eu dilyn ac estyn amdanynt
- Gwrando ar eiriau sampl rydych chi'n eu dweud wrth chwarae fel swigen, pop, ac ati

Troell Gweithgareddau



Helpu fy mabi i ddysgu drwy symud

- Estyn a gafael
- Codi'r coesau i gicio teganau
- Paratoi i rollo drosodd

Osgoi amser sgrin



Diogelu dysgu fy mabi

- Mae rhai astudiaethau'n dangos na all plant sy'n gwyllo'r teledu neu'n cael amser sgrin ganolbwyntio cystal ac nad yw eu hiaith yn datblygu cystal
- Ceisiwch ddiffodd y teledu pan fydd eich babi yn yr ystafell oherwydd gall y sgrin dynnu sylw babanod o'r oedran hwn

Wyddech chi? Mae babanod yn dysgu yng nghyd-destun cydberthynas felly bydd siarad, chwarae a chyffwrdd yn hoffus yn meithrin sgiliau gwybyddol, iaith ac echddygol eich babi. Bydd siarad â'ch babi yn datblygu ei sgiliau iaith.

Drwy chwarae y bydd plentyn yn dysgu. Crëwyd y daflen hon i gynnig syniadau ar gyfer gweithgareddau a all helpu i feithrin sgiliau iaith, gwybyddol ac echddygol. Nid yw'r ffcws ar frandiau penodol o deganau ac nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr. Mae datblygiad yn amrywio o blentyn i blentyn ac os oes gennych unrhyw bryderon am eich plentyn, siaradwch â'ch meddyg teulu neu eich ymwelydd iechyd.



Cyd-chwarae mewn amrywiaeth o safleoedd

Amser Bol



Rhowch deganau lliwgar, llyfrau neu ddrych o flaen eich babi.

Dysgu i eistedd



Eisteddych ar y llawr gyda'ch babi rhwng eich coesau i'w gefnogi Rhowch deganau diddorol o flaen eich babi neu trowch eich babi i'ch wynebu chi


Archwilio â'r dwylo a'r geg



Rhowch deganau wrth ymyl eich babi i'w annog i'w codi yn ei ddwylo a'u harchwilio

Cofiwch bwysigrwydd ...

Defnyddio amrywiaeth o ystumiau wyneb



Mae'n tynnu sylw eich babi ac yn ei annog i ryngweithio

Rhigymau a Chaneuon



Defnyddiych symudiadau'r dwylo i dynnu sylw e.e. Ble mae Bawdyn, Un Bys, Dau Fys, Troi ein Dwylo

Twf economaidd-gymdeithasol



Ceisiwch feithrin cydberthynas drwy chwerthin yn uchel, adnabod wyneb, dynwared ystumiau wyneb, a mwynhau chwarae ag

Cadw eich babi yn ddiogel...

Peidiwch â gadael iddo gysgu ar ei fol




Nodwyd bod babanod sy'n cysgu ar eu boliau yn wynebu risg uwch o syndrom marwolaeth sydyn babanod. Amser bol pan fydd yn effro yn unig.

Defnyddiych deganau diogel i'w atal rhag tagu



Mae plant o'r oedran yma yn hoffi rhoi teganau yn eu cegau. Dylech sicrhau bod pob tegan yn addas ac yn ddiogel i blant ifanc.

Osgowch ddefnyddio seddi wedi'u mowldio



Gall anhyblygedd y sedd darfu ar y broses naturiol o gael rheolaeth osgo sy'n angenrheidiol ar gyfer eistedd a chropian.

Wydddech chi? Mae babanod 6 mis oed eisoes yn dechrau ymateb i'w henw. Mae dysgu i eistedd a chwarae yn gam pwysig ar gyfer cropian, sefyll a cherdded yn nes ymlaen

Drwy chwarae y bydd plentyn yn dysgu. Crëwyd y daflen hon i gynnig syniadau ar gyfer gweithgareddau a all helpu i feithrin sgiliau iaith, gwybyddol ac echddygol. Nid yw'r ffocws ar frandiau penodol o deganau ac nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr. Mae datblygiad yn amrywio o blentyn i blentyn ac os oes gennych unrhyw bryderon am eich plentyn, siaradwch â'ch meddyg teulu neu eich ymwelydd iechyd.

